**Arholiadau Ysgoloriaethau
a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2026**

# DAEAREG

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Dylai pob ymgeisydd gwblhau Rhan A,
ac ateb **un** cwestiwn yn unig o Ran B

## RHAN A (50%)

**Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r rhan hon**

1. 'Os na ellir ei dyfu, yna mae'n rhaid ei gloddio'. Gan ddefnyddio enghreifftiau, trafodwch y datganiad hwn yng nghyd-destun yr heriau mawr sy'n wynebu'r cyflenwad a'r galw o ran adnoddau yn yr 21ain ganrif.

……………………………………………………………………………………………………………………………………………

## RHAN B (50%)

Dylai ymgeiswyr **ateb un** o'r cwestiynau canlynol:

1. Esboniwch pam mae meteoritau'n bwysig yn ein dealltwriaeth o gyfansoddiad cemegol mewnol y Ddaear.

2. Enwch dri o fwynau arwyddocaol sy'n ffurfio creigiau a geir mewn creigiau igneaidd a disgrifiwch y priodweddau a ddefnyddir i'w hadnabod mewn sampl llaw a thoriad tenau.

3. Gan ddewis naill ai creigiau gwaddodol 'clastig' neu greigiau gwaddodol 'carbonad', disgrifiwch eu nodweddion allweddol, y prosesau dyddodiadol sy'n eu ffurfio, a'r amgylcheddau dyddodiadol y maent yn ffurfio ynddynt.

4. Disgrifiwch y priodweddau allweddol a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng creigiau gwaddodol, igneaidd a metamorffig.

5. Gan ddefnyddio digwyddiadau sydd wedi'u cofnodi fel enghreifftiau, disgrifiwch y prosesau tectonig sy'n digwydd wrth ffiniau platiau trawsffurfio.